**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**173 - Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 7 Hydref 2020*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydy |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 57 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | SICM(5)33 |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | 21 Hydref 2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 20 Hydref 2020 |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8 ac 8B(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Caiff yr offeryn hwn ei wneud er mwyn mynd i'r afael â diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir mewn perthynas â chaffael cyhoeddus, sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE), ac i weithredu Teitl 8 o Ran 3 o'r Cytundeb Ymadael a Theitl 5 o Ran 3 o Gytundeb Gwahanu EFTA yr EEA, er mwyn sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir, ym maes caffael cyhoeddus, yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r Cyfnod Gweithredu ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r offeryn hwn yn dirymu'r ddeddfwriaeth ganlynol, cyn i'r offerynnau ddod i rym:

- Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (2019/560); a
- Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019 (2019/623).

Gwnaed y ddau o'r Reoliadau hynny cyn i'r DU a'r UE ymrwymo i'r Cytundeb Ymadael na Chytundeb Gwahanu EFTA yr EEA.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hefyd yn diwygio adran 155(2) a (3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r diwygiadau yn darparu ar gyfer diffinio term drwy gyfeirio at Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, yn hytrach na thrwy gyfeirio at Gyfarwyddeb y Sector Cyhoeddus (2014/24/EU). Mae angen y diwygiadau hyn er mwyn i'r ddarpariaeth hon weithredu'n effeithiol ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 12 Hydref 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Yn benodol, rydym yn cytuno bod y Rheoliadau yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi swyddogaethau i gael eu harfer naill ai gan Swyddfa'r Cabinet neu Weinidog ar gyfer Swyddfa'r Cabinet a Gweinidogion Cymru ar yr un pryd mewn perthynas ag Awdurdodau Datganoledig Cymru. Byddai'r swyddogaethau hyn yn gyfystyr â swyddogaethau naill ai un o Weinidogion y Goron neu awdurdod cyhoeddus (Swyddfa'r Cabinet) at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac y byddai hyn yn ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Senedd i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Mae posibilrwydd i effaith y swyddogaethau cydamserol a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn gynnwys y gofynion cydsynio yn Atodlen 7B, ac o'r herwydd maent yn cynrychioli cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

Mae datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod yn trafod â Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn a.109 i ddiwygio Atodlen 7B er mwyn negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**Cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10**
Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ar 21 Hydref 2020.